Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

2023

allwalespeople1st.co.uk






**Cynhyrchwyd gan**

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan 2023

**Lluniau gan**

Natasha Hirst; Lucy Hinksman; cyfranwyr eraill

**Argraffwyd gan** Zenith Media




**Adroddiad Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol** 4

**Adroddiad y Prif Weithredwr** 6

**Cyllid** 10

**Cenhadaeth ac Amcanion** 12

**Covid 19** 15

**Y Cyngor Cenedlaethol** 16

**Tîm staff** 19

**Gweithredu Strategaeth MIRROR::**

Prif Weithredwr 20

Cynhadledd Flynyddol - AdFest 21

Talk Back 24

Gwefan & cyfryngau Cymdeithasol 25

Cysylltu 26

Newid y Cyfansoddiad 30

Strategaeth Amrywiaeth 31

LDMAG 32

Tasglu Hawliau Anabledd 33

Project Drwy ein Llygaid 34

Cyllid 35

Bwrdd Cyfarwyddwyr 38

Aelodau 39





# Adroddiad Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol

***"Dechreuodd ein blwyddyn gyda chyfarfod deuddydd yn Wrecsam, gan baratoi cynlluniau cyffrous ar gyfer y dyfodol. Ymunodd aelodau'r Bwrdd, Bob Rhodes a Margaret Flynn â ni i drafod dulliau creadigol newydd o wneud arian a dylanwadu ar y system gofal cymdeithasol"***

Ym mis Mehefin clywsom sut mae project Cysylltu er Newid yn newid polisïau er helpu pobl gydag anableddau dysgu i gael gwaith. Roedd yn newyddion da oherwydd mae cymaint o'r aelodau yn awyddus i gael gwaith. Yn y cyfarfod, clywsom am anawsterau rhai aelodau wrth geisio adnewyddu cardiau consesiynau teithio a bws - sef problem fawr eleni. Mae teithio am ddim ar fysiau a rhai trenau yn hwyluso ymweld â ffrindiau, mynd i waith, mynychu cyfarfodydd hunaneiriolaeth a mwy. Heb gardiau bws, bydd aelodau yn teimlo'n unig ac yn wynebu problemau tlodi. Eleni, rydym wedi gweithio'n galed i hysbysu llunwyr penderfyniadau o'r sefyllfa hon.

Yn Llandudno ym mis Rhagfyr, clywsom am waith Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl a'r cymorth a ddarperir ar gyfer pobl anabl yn y gweithle. Yn ogystal, clywsom am waith Gwelliant Cymru ar

archwiliadau iechyd blynyddol. Sylwyd yn benodol ar waith da hyrwyddwyr asesu iechyd y gogledd, a'r gwaith yn ardal Caerdydd. Holodd y cynrychiolwyr os oedd modd ymestyn y mentrau gwych hyn i wasanaethu Cymru gyfan. Mae cael archwiliad iechyd blynyddol yn ffordd dda o edrych ar ôl eich hun a chadw'n iach.

Ym mis Mawrth 2023, unwaith eto trafododd y cynrychiolwyr y labeli byddwn yn defnyddio i ddisgrifio ein cyflyrau. Cafwyd trafodaeth gadarn am iaith y model cymdeithasol, yr hawl i bennu labeli ein hunain a pharhau i ddefnyddio labeli a ddefnyddir gan wasanaethau gofal. Ar ôl pleidlais, penderfynodd y cynrychiolwyr lynu at y term 'pobl ag anableddau dysgu'. Byddwn yn holi'r aelodau am hyn yn y dyfodol, er mwyn ystyried newidiadau mewn agweddau a dealltwriaeth.

Ym mis Mawrth 2023 clywodd y Cyngor Cenedlaethol newydd am eu rolau cyn gorfod cau'r cyfarfod yn gynnar oherwydd tywydd garw. Roeddwn yn falch iawn o gael fy ethol yn gadeirydd y Cyngor Cenedlaethol ac i groesawu Samantha Hall fel is-gadeirydd. Hoffwn ddiolch James Tyler a Simon Richards am eu gwaith wrth arwain y Cyngor Cenedlaethol.





**Tracy Austin - Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol**




# Adroddiad y Prif Weithredwr

***"Profodd eleni yn flwyddyn ddiddorol iawn i'r corff. Roedd yn wych cael cyfarfod yr aelodau wyneb yn wyneb unwaith eto ar ôl cyfyngiadau cyfnodau clo Covid 19."***



Roedd AdFest 2022 yn enghraifft eithriadol o hynny. I mi roedd yn brofiad mwy hynod na'r arfer. Nid yw'n glir os mai dyna oedd y cyfarfod cyntaf i groesawu'r aelodau ers y cyfnodau clo - gyda'r lleoliad gwych (Quay Hotel, Deganwy), y tywydd braf, trefniadau eithriadol tîm staff AWPF neu gyfuniad o'r holl bethau hynny - AdFest oedd y digwyddiad blynyddol gorau i mi yn fy amser gyda Pobl yn Gyntaf Cymru Gyflawn.

Trafododd y Cyngor Cenedlaethol ddulliau y gellid defnyddio er codi mwy o arian yn y dyfodol a diogelu dyfodol y corff. Bydd hynny'n bwysig oherwydd y cyni ariannol a'r dyfodol ansicr. Ond gallai hefyd fod yn gyfle positif i greu cyfleoedd gwaith ar gyfer yr aelodau a gwaith ar gyfer grwpiau hunaneiriolaeth lleol. Roedd aelodau o'r Cyngor Cenedlaethol a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi cynnal dau gyfarfod gwyntyllu syniadau i drafod y ffordd ymlaen. Rwyf hefyd wedi bod yn gweithio ar gynllun busnes ar gyfer yr adran fasnach gyda chorff Cwmnïau Cymdeithasol Cymru. Byddwn yn ailgydio yn y gwaith dros y flwyddyn nesaf.



*"Eleni yn ogystal, dechreuwyd ystyried ein Strategaeth MIRROR nesaf. Bydd yn bwysig cynllunio sut byddwn yn lleisio barn yr aelodau ar lefel genedlaethol ym mhob cynllun busnes.*
*Y rheswm am hynny yw bod anghenion yr aelodau a grwpiau yn newid, ynghyd ag iechyd a lles grwpiau lleol. Bydd angen ystyried sut i gefnogi grwpiau lleol ar bob amser."*



Mae ein rheolwraig datblygu hunaneiriolaeth Philippa Davies wedi gweithio'n galed gyda grwpiau lleol er mwyn helpu i gryfhau hunaneiriolaeth ar draws y wlad. Helpodd Our Voice, Our Choice Ceredigion i gofrestru fel elusen a chydweithiodd yr ymgynghorydd cyswllt aelodau Tracey Drew ag aelodau Pobl yn Gyntaf Torfaen i sefydlu grŵp newydd. Mae'r gwaith yn parhau. Parhawyd i hysbysu Llywodraeth Cymru o'r heriau sy'n wynebu eiriolaeth a hunaneiriolaeth ar draws y wlad, yn benodol Grŵp LDMAG (Grŵp Anableddau Dysgu Gweinidogol Ymgynghorol). Rwy'n falch iawn o weld bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ADSS (Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol) i weithio ar fframwaith eiriolaeth cenedlaethol a byddwn yn cydweithio mewn partneriaeth â nhw ar y gwaith. Wrth wneud hynny byddwn yn eu hysbysu o farn aelodau a grwpiau lleol sy'n ymwneud â'r gwaith. Mae cynnal hunaneiriolaeth ar draws y wlad yn rhan flaenllaw o'n gwaith a'n gobaith yw bydd Fframwaith Eiriolaeth Cymru yn chwarae rôl fawr mewn cynnal pob math o eiriolaeth.




*"Eleni rwy'n dathlu deng mlynedd fel prif weithredwr Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a rhaid dweud nad oes modd mynegi pa mor falch yr wyf wrth eich cynrychioli chi a'ch barn ar lefel genedlaethol".*

Mater pwysig arall eleni oedd herio'r cynnig i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol a chyflwyno Mesur Hawliau Dynol Prydeinig yn ei lle.

Rwyf fi a'r timau cyfathrebu a chyswllt aelodau wedi cydweithio ag aelodau ar draws y wlad gyda phartneriaid hawliau dynol fel British Institute of Human Rights i herio'r cynnig. Byddai colli'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei gwneud yn llawer anos i'r aelodau fyw fel dinasyddion cyfartal a gweithgar yng Nghymru. Mae hwn yn dal yn un o'n blaenoriaethau pwysicaf.

Un o uchelbwyntiau eleni oedd lansio'r project ffotograffiaeth Drwy ein Llygaid yn y Senedd ar 24 Tachwedd 2022. Noddwyd yr achlysur gan Jane Hutt AS, y gweinidog cyfiawnder cymdeithasol, a'r siaradwr allweddol oedd y prif weinidog Mark Drakeford. Nod y project yw creu cyfres o ddelweddau a themâu wedi eu dyfeisio gan bobl gydag anableddau dysgu er dangos sut byddant am eu hyrwyddo ar y cyfryngau. Profodd yr arddangosfa yn llwyddiant mawr ac rydym yn gobeithio parhau i ddangos y delweddau mewn project dros y flwyddyn nesaf.

Rydym hefyd wedi wedi cwblhau gweithgaredddau olaf project cyflogaeth Cysylltu Engage to Change. Ein bwriad yw defnyddio canlyniadau terfynol y project er mwyn llunio achos i greu





cyfleoedd cyflogaeth gwell ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru; un o addewidion Maniffestro 2021.

Ar lefel bersonol, eleni roeddwn wedi dathlu 10 blynedd fel y prif weithredwr (gynt cyfarwyddwr cenedlaethol) Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan. Nid oes modd gor-ddweud pa mor falch yr wyf  wrth eich cynrychioli chi a'ch dymuniadau ar lefel genedlaethol. Dyma'r fraint fwyaf yn fy mywyd ac ni fyddaf yn ei gymryd yn ganiataol. Mae llwyddiant y swydd yn bennaf yn deillio o'r cymorth rwyf wedi derbyn, nid yn unig o fewn Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ond aelodau a staff grwpiau hunaneiriolaeth ar draws y wlad. Rydych wedi estyn croeso gwresog i mi fel rhywun o du allan i'r mudiad ac rwy'n dal i deimlo hynny. Byddaf yn parhau i weithio'n galed ar eich rhan, yn awr ac yn y dyfodol.

Pob llwyddiant i hunaneiriolaeth
**Joe Powell**







# Cyllid Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan



***“Dechreuodd trydedd flwyddyn ein project gyda Llywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2021. Cyllidir y proje arian Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaladwy a Lle Cymru Llywodraeth Cymru ”***

Enw ein project yw - Hear Me, Include Me, Respect Me - sef project cymunedol, dinasyddiaeth a llesiant.

Prif nod ein project yw cydweithio ag aelodau grwpiau lleol er mwyn eu helpu i weithio gyda’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Wrth gysylltu â byrddau partneriaeth ar draws y wlad, ein gobaith yw cael pobl ag anableddau dysgu i gydweithio i gynllunio gwasanaethau.
Dyma hefyd oedd trydedd flwyddyn ein Strategaeth MIRROR - Adfywio hunaneiriolaeth.

Llwyddwyd i wneud mwy o waith wyneb yn wyneb eleni, ond mae llawer o gyrff yn dal i weithio arlein a hyd yma heb ailagor drysau eu swyddfeydd. O ganlyniad nid oedd modd gwario’r holl arian yn ein cyllideb.

**Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid o £319,084 am y flwyddyn ariannol hon.**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**





*"2022 - 2023 oedd chweched flwyddyn ein cysylltiad â phroject Engage to Change. Project Loteri Fawr/Llywodraeth Cymru 'Ar y Blaen 2' sy'n darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddi ar gyfer pobl 16-25 oed gydag anableddau dysgu ac awtistiaeth"*

Dechreuwyd cefnogi'r project wrth gynnal fforymau er galluogi pobl ag anableddau dysgu i werthuso'r project. Gwnaed y gwaith fel contractwr project.
**O fis Mehefin 2022 (blwyddyn 6) derbyniwyd £5,836.14 am gynnal fforymau gwerthuso.**

Dechreuodd project ffotograffiaeth dwy flynedd Drwy ein Llygaid ar 1 Ebrill 2021. Cyllidwyd gan grant pobl a llefydd y Loteri Fawr.
**Daeth y project i ben ar 31 Rhagfyr 2022**
**Derbyniwyd cyllid o £35,157 am y flwyddyn ariannol hon.**

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

"Through Our Eyes"







# Cenhadaeth ac Amcanion

## Cenhadaeth

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yw llais unedig grwpiau hunaneiriolaeth a phawb gydag anableddau dysgu yng Nghymru. Mae'n rhannu gwybodaeth er mynnu hawliau cyfartal a delweddau positif. Strategaeth MIRROR yw ein cynllun busnes, gyda'r amcanion yn dilyn egwyddorion hunaneiriolaeth MIRROR, sef:

## Amcanion

**1 - Aelodau**

- Cysylltu â'r Aelodau
- Fframwaith Eiriolaeth Cymru
- AdFest
- Storiâu aelodau
- Wythnos Anabledd Dysgu
- Drwy ein Llygaid
- Engage to Change
- Wythnos Anabledd Dysgu
- LDMAG (Learning Disability Ministerial Advisory Group)
- Cynghorau Cenedlaethol a Rhanbarthol
- Tasglu Hawliau Anabledd
- Gwefan & cyfryngau cymdeithasol
- Rheolwr Grŵp Datblygu Hunaneiriolaeth
- North Wales Flyers
- Lobio ac ymgyrchu
- Teledu hunaneiriolaeth
- Datganiadau Safbwynt
- Talk Back



**2 - Syniadau**

- Cynghorau Cenedlaethol a Rhanbarthol
- Bwrdd Cyfarwyddwyr AWPF
- AdFest 2022
- Projectau newydd






**3 - Hawliau**

- Cynghorau Cenedlaethol a Rhanbarthol
- Maniffesto 2021
- Prif Weithredwr
- AdFest 2022
- Grŵp Anableddau Dysgu Gweinidogol Ymgynghorol (LDMAG)
- Fforwm Cydraddoldeb Anabledd
- Tasglu Hawliau Anabledd
- Lobio ac Ymgyrchu
- Ymgynghoriadau
- Datganiadau Safbwynt
- Gwaith pan anabledd
- Noddwr

**4 - Adlewyrchu**

- Cyngor Cenedlaethol
- Prif Weithredwr
- AdFest
- Profiadau aelodau
- Adran Fasnach
- Polisïau
- Rheolwr Datblygu Grŵp Hunaneiriolaeth





**5 - Corff**

- Cyfarfodydd blynyddol
- Cyngor Cenedlaethol
- Bwrdd Cyfarwyddwyr
- Marchnata & cyfathrebu
- Gwefan
- Strategaeth Amrywiaeth
- Adran Fasnach
- Rhwydwaith Gweithwyr Cymorth Ymgynghorol
- Polisïau a gweithdrefnau
- Tîm staff

mirror

members ideas rights reflection organisation review

**6- Arolwg**

- Cyngor Cenedlaethol
- Rheolwr Datblygu Grŵp Hunaneiriolaeth

# Covid 19



***"Wrth wneud mwy o waith wyneb yn wyneb, llwyddwyd i barhau i ddatblygu'r aelodaeth unwaith eto eleni. Er heriau Covid 19, parhawyd i gynyddu nifer yr aelodau yn gyson"***

Ar ôl y cyfnodau clo hir, roeddem yn falch o ddychwelyd i batrwm gwaith mwy arferol. Mae gwneud mwy o waith wyneb yn wyneb wedi bod yn llesol i'r aelodau a staff, wrth hwyluso cysylltu mwy â phobl gydag anableddau. Yn ystod 2022-2023 parhawyd i weithredu nodweddion Strategaeth MIRROR.

Mae rhai pobl yn dal i deimlo'n anniddig wrth gyfarfod pobl wyneb yn wyneb. Yn ystod y cyfnod, parhawyd i gynnal cyfarfodydd Bwrdd arlein a chyfarfodydd y Cyngor Cenedlaethol wyneb yn wyneb, gydag opsiwn i ymuno arlein. Roedd rhai o'r cyfarfodydd allanol gyda chyrff eraill wedi parhau arlein yn ystod y cyfnod.

Parhawyd i weithio'n galed yn ystod y Pandemig ac nid oes unrhyw reswm i feddwl bydd Covid 19 yn effeithio ein cronfeydd wrth gefn neu ein gallu i gynnal gwaith craidd yn y dyfodol.



# Y Cyngor Cenedlaethol

**Cadeirydd**
Tracy Austin
Ynys Môn



**Is-gadeirydd**
Samantha Hall
Caerfyrddin





Sammy Tahramanis - Blaenau Gwent
Simon Richards - Caerdydd
Bradley Okeefe - Merthyr Tudful
Bryn Owen - Sir Ddinbych
Adam Dawkins - Abertawe
Ffion Poole - Caerffili
Gary Angel - Sir y Fflint
Harry Rendell - Gwynedd
Connie Phibben - Castell-nedd Porth Talbot
Bethan Kench - Ceredigion
Raymond Byles - Penybont
Tom Watling - Cwm Taf
Kylie Steadman - Powys
Zara Kaleem - Casnewydd
Richard Redmond - Conwy
Linda Withers - Torfaen
Sarah Griffiths - Sir Fynwy
David Sweeting - Bro Morgannwg
Scott Wilson - cynrychiolydd LGBT+

**“Y Cyngor Cenedlaethol sy’n llywio ein gweledigaeth er mwyn cael barn grwpiau hunaneiriolaeth ar draws y wlad.”**















Roedd y Cyngor Cenedlaethol wedi cyfarfod pedair gwaith eleni. Rhan fawr o’r gwaith oedd adolygu’r memorandwm ac erthyglau. Cytunwyd newidiadau gan yr aelodaeth yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol.
Ym mis Mai, roedd y cynrychiolwyr wedi trafod sefydlu adran fasnach er mwyn creu mwy o incwm ar gyfer y corff. Roedd rhai cynrychiolwyr hefyd wedi bod yn rhan o grŵp i drafod syniadau o ran sut i sefydlu adran fasnach. Ffocws mis Rhagfyr oedd adolygu AdFest 2022, project Cysylltu er Newid a datblygiadau ym maes iechyd.

Yn ystod Mawrth 2023 roedd y cynrychiolwyr wedi trafod y term ‘anabledd dysgu’ a sylwadau eraill ar y mater. Ystyriwyd rhai termau eraill ond cytunwyd mai ‘anabledd dysgu’ oedd dal yr opsiwn gorau ar hyn o bryd.

Cynhaliwyd pleidleisiau i ethol cadeirydd ac is-gadeirydd y Cyngor Cenedlaethol.



## Rhan o waith y Cyngor Cenedlaethol eleni

### Gwella cynrychiolaeth

Cynrychiolydd LGBTQ+ wedi ymuno â'r Cyngor Cenedlaethol. Edrych am gynrychiolaeth o grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig



### Trafnidiaeth



Cefnogi gwaith i olrhain problemau gyda thocynnau bws, yn cynnwys eu colli.



### Adolygu

Adolygu AdFest 2022.
Adolygu'r memorandwm ac erthyglau.





### Iaith

Wedi trafod y term i ddisgrifio eu hanabledd. Penderfynwyd mai 'pobl ag anableddau dysgu' oedd orau.



### Cynllunio

AdFest 2023
Datganiadau safbwynt
Blaenoriaethau
ymgyrchu



### Cysylltu

Terry Mills - Hyrwyddwr Cyflogaeth Llywodraeth Cymru
Paula Philipps - Gwelliant Cymru, Hyrwyddwyr Archwiliadau Iechyd ardal Conwy

# Tîm Staff



**Joe Powell**
Prif Weithredwr



**Kelly Stuart**
Rheolwr Polisi & Cyfathrebu



**Philippa Davies**
Rheolwr Datblygu Grwpiau Hunaneiriolaeth



**Victoria Sidwell-Brown**
Rheolwr Busnes & Cyllid



**Tracey Drew**
Ymgynghorydd Cysylltu â'r Aelodau



**Sarah Ansell**
Swyddog Cymorth



**Natasha Hirst**
Rheolwr Project Drwy ein Llygaid



**Gerraint Jones-Griffiths**
Gweithiwr Maes



**Claire Morgan**
Swyddog Cyfathrebu



**Lucy Hinksman**
Swyddog a Ffotograffydd Project Drwy ein Llygaid



# Prif Weithredwr

**Mae gan ein prif weithredwr, Joe Powell, brofiad o fyw mewn cartrefi gofal anableddau dysgu ac mae wedi parhau i gynnal ei rôl llawn amser gyda'r elusen yn y cyfnod hwn.**

Mae Joe wedi ein cynrychioli ar y grwpiau dilynol: LDMAG (Grŵp Gweinidogion Ymgynghorol ar Anableddau Dysgu; Fforwm Cydraddoldeb Anabledd; Tasglu Anabledd; Grŵp hawliau dynol trawsblaid; Grŵp anabledd trawsblaid; Grŵp anabledd dysgu trawsblaid; Grŵp niwroamrywiaeth gweinidogol ymgynghorol; Grŵp llywio adnoddau amhariad gwybyddol ac anableddau dysgu; Grŵp gweithredu unigrwydd ac ynysu; Fforwm rhanddeiliaid Covid 19; grŵp rhanddeiliaid hawliau dynol; Bwrdd Tyndra Atgasedd & Cymunedol Llywodraeth Cymru; Cymuned arferion ymddygiad heriol (COP); Consortiwm cyfarfodydd anabledd dysgu trydydd sector; Bwrdd tîm datblygu cynhwysiad cenedlaethol (NDTI); British Institute of Human Rights Board; Bwrdd bywydau trwy ffrindiau; Autism Advisory Group; Bwrdd Anabledd Dysgu Cymru; Save our Human Rights Coalition; Henry Smith Advocacy Project Steering Group; National Mental Health Capacity Forum; Cyd-gadeirydd Stakeholder Group ADSS Advocacy Framework.

Eleni, dosbarthodd Joe bedwar fideo i'r aelodau am ein gweithgareddau. Roedd ar gael i sgwrsio gyda'r aelodau ar gais. Mae'n cynnal cyfrifon Facebook, Twitter a LinkedIn ei hun, gan ddarparu'r newyddion diweddaraf am ei waith.

# Cynhadledd Flynyddol: AdFest 2022



**WelshAmbPECI** Diwrnod anhygoel yma yn @AllWalesPF **#AdFest2022** Grêt i fod nôl ar y ffordd eto yn cyfarfod ffrindiau a chydweithwyr hen a newydd, yn trafod adnoddau **#EasyRead** @welshambulance ac @NHS111Wales **#LDWeek2022**



**All Wales People First** Profodd **#LDWeek2022** yn brysur iawn i AWPF. Ailgysylltwyd â llawer o bobl a gwnaed rhai cysylltiadau newydd. Diolch am ymuno â ni ar Zoom ac yn bersonol ar gyfer **#AdFest2022**. Diolch i Pobl yn Gyntaf Sir Gâr am drefnu'r gweithdy, Nick Andrews, Richard Williams & @BIHRhumanrights




**North Wales Self Advocacy** RainbowGogs yr Enfys yn lansio ffilm fer LGBTQi - Life, Love, Learning disability - ac LGBTQi @AllWalesPF **#AdFest2022** a phawb yn edrych ymlaen at rannu'r bathodynnau gwych!





# AdFest 2022

***"Yn ystod cyfnodau anodd roedd rhaid dysgu sut i wneud pethau'n well. Weithiau byddwn yn dysgu pethau newydd mewn argyfwng er gwneud pethau'n well yn y dyfodol" - Joe Powell***

Cynhaliwyd AdFest 2022 gyda phobl yn bresennol am y tro cyntaf ers pandemig Covid 19. Trefnwyd yn Quay Hotel, Deganwy. AdFest oedd y digwyddiad cyntaf gyda phobl yn bresennol yn ystod yr Wythnos Anableddau Dysgu ym Mehefin 2022. Roedd 93 person wedi mynychu diwrnod cyntaf AdFest 2022 a 106 yr ail ddiwrnod.

Cafwyd cyfraniadau grymus yn y sesiwn drafod:

Nick Andrews, Prifysgol Abertawe, a Richard Williams wedi cynnal gweithdy Magic Moments, yn edrych ar sut i ddefnyddio storiâu i helpu pobl i ddysgu a gwella gwasanaethau.

Samantha Hall, Pobl yn Gyntaf Sir Gâr, wedi cynnal gweithdy iechyd a llesiant.

British Institute of Human Rights wedi cynnal gweithdy arlein 'Holding on to your human rights' er mwyn helpu aelodau i ddeall y Ddeddf Hawliau Dynol, sut i'w defnyddio a lleisio eu barn.

Gerraint Jones Griffiths, gweithiwr maes, wedi cynnal disgo yn y nos. Ffordd wych o ailgysylltu â hen ffrindiau a chyfarfod rhai newydd!

Ar ddiwrnod 2, cyd-gadeirydd ein Bwrdd, David Whittle wedi cadeirio'r babell siaradwyr. Clywsom am ymgyrch iechyd Pobl yn Gyntaf Cwm Taf, oedd wedi cynhyrchu pecyn hyfforddi gyda'r bwrdd iechyd. Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi trafod gwasanaeth NHS 111. Cheeky






mirror
members ideas rights reflection organisation review

Pants a Pobl yn Gyntaf Caerdydd wedi trafod pants mislif ailddefnyddiadwy. North Wales Together wedi trafod eu gwaith ar draws y gogledd. Gig Buddies Cymru wedi trafod eu gwaith a sut mae pobl yn gallu cyfranogi.

Project Drwy ein Llygaid wedi amlinellu nod y project a sut i fod yn rhan o'r gwaith, gan wahodd cynrychiolwyr i ymweld â stiwdio ffotograffiaeth AdFest.
Yn ogystal, ymwelodd y cynrychiolwyr â'r arddangosfeydd ar ddiwrnod 2.

Dyma enillwyr **Gwobrau MIRROR**:
Gwobr Aelodau er cof am Linton Gower - Scott Wilson
**Gwobr Syniadau** - Mahfuz ac Ellesey, TAPE/ Backstage Youth Club
**Gwobr Hawliau** - Michelle Williams
**Gwobr Adlewyrchu** - Hunaneiriolaeth Gwynedd
**Gwobr Corff** - Pobl yn Gyntaf Sir Gâr
**Gwobr Adolygu** - Pobl yn Gyntaf Cwm Taf




Llais Cenedlaethol
Pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru
Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
All Wales People First
The National Voice of People
with Learning Disabilities in Wales

# All Wales People First
# Talk Back
***The National Voice of People with Learning Disabilities in Wales***



Talk Back yw ein cylchlythyr cenedlaethol. Kelly Stuart sy'n golygu a chynhyrchu'r cylchlythyr.

Dosbarthwyd Talk Back yn y gwanwyn, haf, hydref a'r gaeaf, a rhoir copi ar y wefan.

Roedd erthyglau am...



Project Drwy ein Llygaid

Newyddion gan y prif weithredwr

Erthyglau gan aelodau

**Newyddion gan grwpiau hunaneiriolaeth, yn cynnwys:**

Grŵp Ffocws Ailgysylltu Pobl yn Gyntaf Caerffili



Grŵp hunaneiriolaeth newydd - Clwyd Peacocks

Digwyddiad archwiliad iechyd Your Voice Advocacy

Teyrnged i'r diweddar Helga Uckerman, gweithiwr cymorth, NWAAA

Our Voice Our Choice Ceredigion yn dod yn elusen gofrestredig

Pobl yn Gyntaf Casnewydd wedi cymryd drosodd pont gludo Casnewydd am ddiwrnod

Swyddog diogelwch Pobl yn Gyntaf y Fro

Cyfansoddiadau newydd Rainbow Gogs yr Enfys a Roaring Môn.




# Gwefan & cyfryngau cymdeithasol







Mae'r wefan wedi bod yn gyfrwng pwysig i rannu gwybodaeth gyda'r aelodau. Postiwyd newyddion yn rheolaidd ar bob platfform, yn cynnwys erthyglau Joe, storiâu aelodau, pecyn polisïau MIRROR, adnoddau defnyddiol.

Cynyddodd nifer ein dilynwyr ar bob platfform bob mis.

280 dilynwr ar Instagram - 76 mwy na'r llynedd
1827 dilynwr ar Facebook - 498 mwy na'r llynedd
2831 dilynwr ar Twitter - 154 mwy na'r llynedd



**All Wales People First** @AllWalesPF 17/2/23 "Gwych i fod yma heddiw yn rhan o ddiwrnod cynhwysiad @ColegyCymoedd. Rhai wynebau cyfarwydd a sgwrsio am **#LDSelfAdvocacy #AllWalesPeopleFirst #LDLived Experiences** @GerraintGriff @FfrindiauGigiau @RCTPeopleFirst "



# Cysylltu: Aelodau



Parhawyd i rannu profiadau aelodau drwy Talkback; dyddiadur y wefan; cyfryngau cymdeithasol; fideos ac adroddiadau. Bydd storiâu aelodau yn helpu i fonitro a mapio materion o bwys a sut mae polisïau a gwasanaethau yn gweithio ar ran pobl ag anableddau dysgu.

Yn ogystal, rhannwyd profiadau aelodau gyda Llywodraeth Cymru drwy'r Grŵp Anableddau Dysgu Gweinidogol Ymgynghorol (LDMAG) a fforymau eraill. Bydd hynny'n helpu i lywio blaenoriaethau ymgyrchu'r Cyngor Cenedlaethol. Trafodwyd amryw bynciau yn cynnwys: iechyd; trafnidiaeth; costau byw; Wythnos Anableddau Dysgu; bywyd ar ôl Covid.

Cysylltwyd â'r aelodau a'r Cyngor Cenedlaethol er mwyn llunio datganiadau safbwynt ar: Costau byw; Easy read; Hawliau dynol; Ataliad.

Cydweithiodd y timau Cyfathrebu & Cysylltu â'r aelodau ar ein pynciau llosg a phlatfform sgwrsio SATV. Sef rhan o'n gwaith ymgynghori ehangach gyda'r aelodau. Arweiniwyd y sesiynau gan ein gweithiwr maes Gerraint, sydd â phrofiad o awtistiaeth/anabledd dysgu.




Parhawyd i gydweithio â Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a phartneriaid consortiwm



# Cysylltu: Aelodau



anabledd er mesur ac adrodd ar effeithiau pandemig Covid-19 ar fywydau pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru. Gweithiodd aelodau gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i wirio hygyrchedd eu deunyddiau diogelu. Yn ogystal cydweithiwyd ag Anableddau Dysgu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i adolygu'r Fframwaith Cydraddoldeb Iechyd. Cysylltwyd â'n rhwydweithiau aelodau er mwyn gweithio gyda Phrifysgol De Cymru i fesur effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar fywydau pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru. Erbyn hyn mae'r adroddiad terfynol ar gael.

Cydweithiwyd yn agos â grwpiau lleol drwy'r Cynghorau Rhanbarthol, gan gyfarfod 20 gwaith yn erbyn targed o 16 cyfarfod Cyngor Rhanbarthol ar draws y wlad.

Cyd-drefnwyd cyfarfodydd gydag AWPF a grwpiau hunaneiriolaeth rhanbarthol. Mae'r cynghorau rhanbarthol yn dilyn patrwm y byrddau iechyd rhanbarthol - sef y Gogledd; Gorllewin & Powys; Cwm Taf a Bae'r Gorllewin; De Ddwyrain. Cynhaliwyd 20 cyfarfod yn ystod cyfnod adrodd 2022-2023, pedwar mwy na'r targed.





# Cysylltu: grwpiau hunaneiriolaeth




Mae'r rheolwr grŵp datblygu hunaneiriolaeth, Philippa, wedi helpu'r grwpiau i ddatblygu. Darparodd wybodaeth llywodraethu a chymorth ar gyfer sawl grŵp, yn cynnwys help i gofrestru fel elusennau. Yn ogystal, lluniodd adroddiad ar y berthynas rhwng grwpiau hunaneiriolaeth a'u byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Roedd Philippa a'r ymgynghorydd cysylltu â'r aelodau, Tracey, wedi helpu cyn-aelodau Pobl yn Gyntaf Torfaen i gynllunio gwasanaeth hunaneiriolaeth newydd yn yr ardal. Rhagwelir bydd yr awdurdod lleol yn comisiynu'r gwasanaeth cyn bo hir.

Derbyniwyd cais am gymorth i sefydlu grŵp yn y gogledd i wirio a gwerthuso ansawdd projectau sef North Wales Flyers. Rydym hefyd yn gweithio fel partner Conwy Connect a NWAAA (North Wales Advice and Advocacy Association). Ar ben hynny, mynegwyd diddordeb mewn cydweithio fel prif bartner gyda grwpiau yn y rhanbarth i lunio strategaeth gyflogaeth ar gyfer y gogledd. Bydd y gwaith yn parhau yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Yn y cyfnod trefnodd Philippa saith cyfarfod SWAN (Support Worker Advisory Network). Maent yn darparu cyfleoedd i drafod sut i gefnogi grwpiau; rhannu heriau a newyddion am eu hardaloedd.




# Cysylltu: Ymgynghori ac Ymgyrchu



**Darparwyd ymateb i'r ymgynghoriadau dilynol yn y cyfnod:**
Diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol: Ymgynghoriad er diwygio Deddf Hawliau Dynol 1998; Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn; Safonau diogelu Liberty; Newid Cod ymarfer MCA a Gweithredu'r IPA; Holiadur JCHR ar ddiwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol; Tystiolaeth i'r Cydbwyllgor Hawliau Dynol; Canllawiau Drafft ar gyfer swyddogion etholiadau: Cymorth pleidleisio ar gyfer pobl ag anableddau; Datblygu Fframwaith Presgripsiynau Cymdeithasol; Newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus; WelTAG - canllawiau gwerthuso trafnidiaeth Cymru; Cyfarwyddyd  Comisiwn Etholiadol ar gyfer swyddogion etholiadau - helpu pobl anabl i bleidleisio; Corff Iechyd a Gofal Cymdeithasol Citizens Voice

**Ymgyrchwyd ym meysydd:** Hawliau dynol; Diogelu hunaneiriolaeth; Tocynnau bws; Gosod aelodau AWPF mewn lleoliadau seiciatreg anaddas; Materion cysylltiedig â chyfuno iechyd meddwl ac anabledd dysgu mewn gwasanaethau cleifion.
**Cefnogwyd:** Deiseb Mencap Cymru am barhau i gynnig dewis o ran defnyddio arian parod; Grwpiau Gorllewin Cymru wedi codi pryderon am gynnig i gyfuno gwasanaethau cleifion iechyd medddwl ac anabledd dysgu;
Gweithdai arferion ataliol i drafod gostwng arferion cyfyngol.





# Newid Cyfansoddiad



Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol anghyffredin ar 23 Mehefin 2022 yn Quay Hotel, Deganwy fel rhan o AdFest 2022. Cytunodd yr aelodau y gallai AWPF wneud y newidiadau arfaethedig i'r Memorandwm ac Erthyglau yn unol â'r hyn a gytunwyd ym mis Hydref 2021.

Gwnaed y newidiadau gan y cyfreithwyr Geldard's a'u ffeilio gyda Thŷ'r Cwmnïau.



## Wythnos Anabledd Dysgu 2022

Yn ystod Wythnos Anabledd Dysgu eleni dathlodd AWPF 10fed penblwydd penodi prif weithredwr gyda phrofiad o fyw gydag anabledd dysgu. Mae gan Joe Powell brofiad o fyw mewn cartrefi gofal anabledd dysgu. Penodwyd Joe yn 2012. Dathlwyd yr achlysur ar ffurf:

- Erthygl Joe yn diolch yr aelodau am eu cymorth.
- Erthygl ar y wefan gan gyn-ymgynghorydd AWPF Yvonne Boxall.
- Tystiolaeth fideo ac ysgrifenedig gan aelodau, aelodau staff hen a newydd, aelodau'r bwrdd a phartneriaid.



# Strategaeth Amrywiaeth



Rydym yn gweithio i ddatblygu strategaeth amrywiaeth er mwyn ein helpu i ddenu mwy o aelodau o wahanol gefndiroedd ac ehangu cynrychiolaeth ar y Cyngor Cenedlaethol a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Rydym hefyd am wella mynediad i bobl nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu defnyddio gwasanaethau hunaneiriolaeth. Yn ogystal cydweithiwyd â Diverse Cymru i lunio'r strategaeth. Mae'r aelodau wedi ethol cynrychiolydd LGBT ar y Cyngor Cenedlaethol ac yn edrych i sefydlu grŵp hunaneiriolaeth BME gyda chynrychiolydd ar y Cyngor Cenedlaethol.





## Adran Fasnach

Parhawyd i drafod sefydlu adran fasnach, gyda'r prif weithredwr ac is-grŵp o'r Bwrdd wedi cyfarfod Social Firms Wales i drafod amryw opsiynau cyfreithiol ac ariannol.

Bydd y Cyngor Cenedlaethol yn ystyried y deunyddiau gan Social Firms Wales yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, gan bennu os am fynd ymlaen â'r gwaith.



# Learning Disability Advisory Group (LDMAG)







Cynhaliwyd cyfarfodydd LDMAG ar blatfformau fideo gynadledda unwaith eto eleni. Parhaodd AWPF i gydweithio â Llywodraeth Cymru a'r rhanddeiliaid wrth adolygu'r cynllun gweithredu anabledd dysgu. Roedd ein cynrychiolaeth yn cynnwys y prif weithredwr a thri hunaneiriolwr arall gyda phrofiad o fyw gydag anabledd dysgu, yn cynnwys y Cyd-gadeirydd. Roedd ein profiadau wedi helpu i fesur effaith y strategaeth ar ostwng anghydraddoldeb.

Yn dilyn y gwaith hwnnw, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid er galluogi ADSS (Associated Directors for Social Services) i lunio fframwaith eiriolaeth ar gyfer Cymru. Cydweithiodd AWPF ag ADSS i gynhyrchu'r Fframwaith. Cwblhawyd yr adolygiad pen desg cychwynnol ac fe gynhaliwyd trafodaethau i ystyried sefydlu grŵp rhanddeiliaid. Bwriedir penodi person gyda phrofiad o fyw ag anabledd dysgu a'i gyflogi gan AWPF i weithio ar y project, gyda'r gwaith i barhau dros y cyfnod adrodd nesaf.



# Tasglu Hawliau Anabledd

Cydweithiodd AWPF â chyrff pobl anabledd eraill yn ystod pandemig Covid 19 i gynhyrchu adroddiad 'Locked Out: Liberating Lives' gan yr Athro Debbie Foster. Mae'r adroddiad yn tanlinellu effeithiau anghymesur y pandemig ar bobl gydag anableddau. Sefydlwyd Tasglu Hawliau Anabledd gan y prif weinidog Mark Drakeford er mwyn trafod yr effeithiau hynny, gyda'n prif weithredwr yn parhau i'n cynrychioli yn y cyfarfodydd hyn a rhai is-grwpiau iechyd a thrafnidiaeth.



## Engage to Change

Parhawyd i gefnogi'r project hwn drwy ein cytundeb lefel gwasanaeth. Trefnwyd fforymau er mwyn cysylltu â phobl gyda phrofiad o fyw gydag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth. Roedd y cyfranogwyr wedi gwerthuso'r project ar y cyd â'r Ganolfan Iechyd Meddwl Genedlaethol, Prifysgol Caerdydd. Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn:

- Village Hotel, Caerdydd ar 22 Hydref
- Venue Cymru, Llandudno ar 19 Tachwedd

"Through Our Eyes"

# Drwy ein Llygaid



Cyllidwyd y project hwn gan Gronfa'r Loteri Fawr, gan ddechrau ar 1 Ebrill 2020.
Nod y project yw galluogi pobl ag anableddau dysgu i ddylunio deunyddiau fydd yn adlewyrchu sut byddant am gael eu disgrifio ar y cyfryngau.
Eleni, roedd y project wedi:

- Cynnal dathliad yn y Senedd ar 24 Tachwedd o dan nawdd Jane Hutt AS gweinidog cyfiawnder cymdeithasol, gydag araith allweddol gan y prif weinidog Mark Drakeford
- Arddangosfa arall ar gyfer Jane Hutt AS gweinidog cyfiawnder cymdeithasol yn y Senedd ar 30 Tachwedd 2022.
- Cynhyrchu banc o ddelweddau i'w defnyddio gan y cyfryngau a chyrff eraill er hyrwyddo delwedd bositif o anabledd dysgu.
- Trefnu hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol ar gyfer yr aelodau.



Daeth y project i ben ym mis Rhagfyr 2022. Y flwyddyn nesaf byddwn yn edrych am fwy o gyllid i deithio'r project ar draws y wlad.

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND



# Cyllid Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan 2022-2023

| | |
|---|---|
| Incwm | £410,267 |
| Llai gwariant | £395,243 |
| Gwahaniaeth | £ 15,024 |













# O ble daeth yr arian

| | |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | |
| Hear me, Include me, Respect me | £319,084 |
| **Cronfa Gymunedol y Loteri** | |
| Drwy ein Llygaid | £ 35,157 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | |
| North Wales Flyers | £ 22,000 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** | £ 6,845 |
| **Incwm arall** | £ 34,049 |
| **Cyfanswm** | **£410,267** |

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

CRONFA
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND



# Gwario’r arian

| | | |
|---|---|---|
| Cynadleddau & tanysgrifiadau | £ | 44,460 |
| Costau staff (cyflogau & pensiynau) | £ | 248,095 |
| Dibrisiant | £ | ,942 |
| Cyfreithiol & proffesiynol | £ | 11,179 |
| Costau swyddfa | £ | 16,720 |
| Costau cyfarfodydd | £ | 2,079 |
| Cynghorau Cenedlaethol a Rhanbarthol | £ | 17,600 |
| Recriwtio | £ | 1,020 |
| Teithio & cynhaliaeth staff | £ | 19,256 |
| Costau ffôn | £ | 1,780 |
| Hyfforddiant a digwyddiadau | £ | 9,291 |
| Costau rheoli | £ | 6,150 |
| **Cyfanswm gwariant** | **£** | **395,243** |





# Bwrdd Cyfarwyddwyr




David Whittle - Cyd-gadeirydd
Bob Rhodes - Cyd-gadeirydd
John Thomas - Trysorydd
Michael Allcock
Tracey Austin
Samantha Hall
Margaret Flynn
Ruth Northway
Simon Richards
James Tyler
Lee Ellery
Kay Williams















# Aelodau Llawn

| | | |
|---|---|---|
| Adam | Bartle | Pen- y -Bont |
| Adam | Dawkins | Abertawe |
| Adam | Elameer | Abertawe |
| Adam | White | Pen-y-Bont |
| Adam | Williams | Caerffili |
| Adrian | Williams | Gwynedd |
| Alan | Weeks | Sir Ddinbych |
| Alan | Williams | Blaenau Gwent |
| Aled | Lewis | Sir Gaerfyrddin |
| Alex | Owen | Sir Ddinbych |
| Alex | Perry | Casnewydd |
| Alex | Roberts | Caerffili |
| Alex | Wooler | Caerffili |
| Alex D. | Stevenson | Bro Morgannwg |
| Alison | Szigetvari | RCT |
| Alun | Matthews | Pen-y-Bont |
| Amy | Barrett | Sir Benfro |
| Amy | Jones | Caerffili |
| Andrea | Davies | Abertawe |
| Andrew | Carslake | Sir Fynwy |
| Andrew | Davies | Llanelli |
| Andrew | Evans | Abertawe |
| Andrew | Gapa | Torfaen |
| Andrew | May | Gwynedd |
| Andrew | Wellington | Castell-nedd |
| Aneurin | Williams | Caerffili |
| Angelo | Tahramanis | Blaenau Gwent |
| Angie | Edwards | Sir Gaerfyrddin |
| Anita | Clasby | Ceredigion |
| Ann | Jones | Sir Gaerfyrddin |
| Ann | Williams | Castell-nedd |

| | | |
|---|---|---|
| Anna | Howell | Sir Benfro |
| Anne | Luxton | Torfaen |
| Anthony | Daniels | Pen-y-Bont |
| Anthony | Davies | Caerffili |
| Anthony | Higgs | Torfaen |
| Anthony | Mitchell | Caerdydd |
| Arthur | Pritchard | Ynys Mon |
| Ashley | Smith | Caerffili |
| Becky | Tweedle | Pen-y-Bont |
| Ben | Jones | RCT |
| Ben | Learoyd | Ceredigion |
| Ben | McCay | Lloegr |
| Ben | Taylor | Bro Morgannwg |
| Beryl | Woodfine | Powys |
| Bethan | Foxall | Gwynedd |
| Bethan M. | Evans | Gwynedd |
| Bethan | Kench | Ceredigion |
| Billy | Israel | Ceredigion |
| Blue | Svensson | Abertawe |
| Bradley | O'Keefe | Merthyr Tudful |
| Bradley | Powers | Abertawe |
| Brenda | Walsh | Bro Morgannwg |
| Brian | Roberts | Abertawe |
| Brian | Thomas | Caerdydd |
| Brian | Thomas | Powys |
| Brian | White | Caerffili |
| Brian | Williams | Powys |
| Candis | Penny | Powys |
| Carina | Davies | Powys |
| Carinder | Malhi | Lloegr |
| Carl | Barber | Sir Ddinbych |

| | | |
|---|---|---|
| Carl | Davies | Sir Benfro |
| Carl | Fowler | Ceredigon |
| Carl | Millard | Pontypridd |
| Carl | Roberts | Sir y Fflint |
| Carla | Williams | Conwy |
| Caroline | Nash | Gwynedd |
| Carys | Cousins | Abertawe |
| Casey | Dawes | Gwynedd |
| Cath | Viakos | Casnewydd |
| Catherine | Jones | Conwy |
| Catherine | Williams | Abertawe |
| Cathy | Auckballary | Bro Morgannwg |
| Cathy | Taylor | Ceredigion |
| Catrin A. | Jones | Abertawe |
| Ceris | Jones | Port Talbot |
| Charlotte | Azeppazdi | RCT |
| Charlotte | McMillan | Torfaen |
| Chloe | Aineomugisha | BGwent |
| Chloe | Williams | Torfaen |
| Chloe | Cannon | RCT |
| Chris | Clarke | Powys |
| Chris | Kidner | Sir Gaerfyrddin |
| Chris | Power | Bro Morgannwg |
| Christopher | Davies | Caerffili |
| Christopher | Edwards | Castell-nedd |
| Christopher | Jones | Sir Gaerfyrddin |
| Christopher | Lischka | Sir Gaerfyrddin |
| Claire | Holly | Blaenau Gwent |
| Claire | Rasmussen | RCT |
| Clare | Whittle | Powys |
| Clive | Edwards | Gwynedd |

| | | |
|---|---|---|
| Colin | Brighten | Sir Ddinbych |
| Colin | Jewkson | Caerffili |
| Colin | Price | Caerffili |
| Connie | Phibben | Abertawe |
| Craig | Channel | Pen-y-Bont |
| Craig | Grunan | Castell-nedd |
| Craig | Roberts | Abertawe |
| Cynthia | Singer | Caerffili |
| Daffyd | Williams | Sir Fynwy |
| Dafydd | Roberts | Gwynedd |
| Dan | Hiley | Powys |
| Daniel | Barnard | Merthyr Tudful |
| Daniel | Harris | RCT |
| Daniel | Lambert | Sir y Fflint |
| Daniel | Sheppard | Ceredigion |
| Danny | Coates | Sir Ddinbych |
| Danny | Couty | Sir Ddinbych |
| Danny | Millward | Sir Fynwy |
| Darren | Thomas | RCT |
| David | Baker | Ceredigion |
| David | Blow | Caerffili |
| David | Curwen | Pen-y-Bont |
| David | Evans | Caerffili |
| David | James | Powys |
| David | Lewis | Powys |
| David | Reynolds | RCT |
| David | Sweeting | Bro Morgannwg |
| David | Twomey | Castell-nedd |
| David | Weir | Alban |
| David | Whittle | Powys |
| David | Wilberforce | Wrecsam |
| David | Williams | Abertawe |
| David R. | Bennett | Blaenau Gwent |
| Dawn | Gullis | Casnewydd |
| Debbie | Ford | Sir Ddinbych |
| Debbie | Lomas | Conwy |
| Debbie | Stride | Pen-y-Bont |

| | | |
|---|---|---|
| Debbie | Williams | Gwynedd |
| Deborah | Gould | Gwynedd |
| Derek | Howitt | Caerffili |
| Derek | May | Casnewydd |
| Donna | Yule | Abertawe |
| Dyfan | Roberts | Sir Ddinbych |
| Ed | Lewis | Sir Benfro |
| Edward | Stanley | Powys |
| Eirwen | Lewis | Castell-nedd |
| Elaine | Jones | Powys |
| Elaine | Kelham | Blaenau Gwent |
| Eleanor | Morgan | Powys |
| Elinor | Williams | Gwynedd |
| Elizabeth | Attwood | Blaenau Gwent |
| Elsa | Jones | Powys |
| Emily | Cleverly | Sir Gaerfyrddin |
| Emma | Ashley | Sir Ddinbych |
| Emma | Guidera | Sir Ddinbych |
| Emma | Tamlin | Abertawe |
| Emma J. | Prosser | Pen-y-Bont |
| Eric | Davies | Sir Fynwy |
| Evan | Hughes | Ynys Mon |
| Faye | Parrington | Ceredigion |
| Ffion | Poole | Caerffili |
| Ffion | Roberts | Pen-y-Bont |
| Frances | Holmes | Gwynedd |
| Gareth | Cotton | Abertawe |
| Gareth | Humphries | Abertawe |
| Gareth | Humphreys | Abertawe |
| Gareth | James | RCT |
| Gareth | Sully | Casnewydd |
| Gareth | Walters | Caerffili |
| Garry | Edwards | Blaenau Gwent |
| Gary | Angell | Sir y Fflint |
| Gary | McGeary | Gwynedd |
| Gary | Spencer | Abertawe |
| Gavin | Gardner | Pen-y-Bont |

| | | |
|---|---|---|
| Gemma | Woodstock | Torfaen |
| George | Breeze | Caerdydd |
| Geraint | Eardley | Gwynedd |
| Gerraint | Jones-Griffiths | Blaenau Gwent |
| Glayne | Walker | Caerdydd |
| Gloria | John | RCT |
| Glyn | Williams | Sir y Fflint |
| Graeme | Roberts | Ynys Mon |
| Graham | Price | Port Talbot |
| Grahame | Canning | Sir Ddinbych |
| Gregory J. | Cornet | Pen-y-Bont |
| Griff | James | Ceredigion |
| Gwynfor | Lewis | Sir Ddinbych |
| Hannah | Futyan | Conwy |
| Hannah | Thomas | Caerffili |
| Harold | Evans | Caerffili |
| Harry | Rendell | Gwynedd |
| Hayley | Price | Abertawe |
| Helen | Jones | Ceredigion |
| Helen L. | Price | Bro Morgannwg |
| Huw David | Jenkins | Sir Gaerfyrddin |
| Ian | Copping | Pen-y-Bont |
| Ian | Swannick | Bro Morgannwg |
| Isobel | Harris | RCT |
| Ivy | Thomson | Pen-y-Bont |
| Jade | Davies | RCT |
| Jade | Lee | RCT |
| James | Andrew | Gwynedd |
| James | Crowley | Sir Benfro |
| James | Dash | Sir Benfro |
| James | Lewis | Sir Ddinbych |
| James | Tyler | Sir Benfro |
| James | Withers | Torfaen |
| Jamie | Farr | Sir Fynwy |
| Jamie | Roberts | Caerffili |
| Jane | E Leonard | Wrecsam |
| Jane | Hawkins | Powys |

| | | |
|---|---|---|
| Jane | Sturla | Sir y Fflint |
| Janice | Partridge | Caerdydd |
| Janis | Wyburn | Blaenau Gwent |
| Jason | Bayliss | Pen-y-Bont |
| Jason | Morris | Ceredigion |
| Jason | Stone | Abertawe |
| Jeni | Snell | Casnewydd |
| Jenifer | Lewis | Pen-y-Bont |
| Jenny | Sibley | Caerffili |
| Jeremy | de Wilton | Sir Benfro |
| Joan | Llewellyn | Pen-y-Bont |
| Joanna | Jones | Caerdydd |
| Joanne | Herbert | Caerdydd |
| Joanne | Wilton | Sir Ddinbych |
| Joanne | Williams | Conwy |
| Jodie | Maher | Abertawe |
| John | Greenland | Sir Fynwy |
| John | Richards | Caerffili |
| John | Swift | Gwynedd |
| John | Williams | Powys |
| Jonathan | Brown | Bro Morgannwg |
| Jonathan | Richards | Sir Gaerfyrddin |
| Jonathan | Stone | Caerffili |
| Jonathan | Tranter | Ynys Mon |
| Jonathan | Williams | Pen-y-Bont |
| Jonny | Vann | Castell-nedd |
| Joseph | Andrews | Sir Benfro |
| Joseph | Blackley | Gwent |
| Josephine | Barber | Sir y Fflint |
| Joshua | Phelps | RCT |
| Joy | Davies | Castell-nedd |
| Joy | Deere | Castell-nedd |
| Julian | Hall | Abertawe |
| Julie | Devereux | Powys |
| Julie | Farmer | Pen-y-Bont |
| June | Williams | Abertawe |
| Kaitlin | Matthews | Sir Gaerfyrddin |

| | | |
|---|---|---|
| Kalvin | Jones | Ynys Mon |
| Kara | Williams | Castell-nedd |
| Karen | Hinton | Castell-nedd |
| Karen | Morgan | Bro Morgannwg |
| Karen | Newman | Sir y Fflint |
| Karen | Tallack | Abertawe |
| Karl | Denning | Torfaen |
| Karl | Gregory | Pen-y-Bont |
| Kate | Bass | Sir Fynwy |
| Katherine | Wheeler | Sir Gaerfyrddin |
| Katie | Mears | Caerffili |
| Katie | Moore | Caerffili |
| Katie | Preece | Castell-nedd |
| Kay | Bevan | Sir Gaerfyrddin |
| Keeley | Cotterill Ball | Gwynedd |
| Kelly | Ball | Casnewydd |
| Kelly | Rideout | Bro Morgannwg |
| Kelsey | Shaw | Sir Gaerfyrddin |
| Kenneth | O'Mahoney | Sir Benfro |
| Keri-Ann | Willetts | Caerffili |
| Kevin | Stone | Blaenau Gwent |
| Kurtis | Marshall | Bro Morgannwg |
| Kylie | Ashill | Torfaen |
| Kylie | Steadman | Powys |
| Laura | Powell | Powys |
| Laura | Wilson | Sir Fynwy |
| Lauren | Jones | Bro Morgannwg |
| Lauren | Howells | RCT |
| Lee | Roberts | Conwy |
| Les | George | Caerffili |
| Lesley | Chick | Gwynedd |
| Lesley | Crosbie | Sir Fynwy |
| Lesley | Reed | RCT |
| Levi | Owen | Sir Caerfyrddin |
| Lewis | McDougall | Sir Gaerfyrddin |
| Linda | Aylward | Gwynedd |
| Linda | Tonks | Casnewydd |

| | | |
|---|---|---|
| Lindsey | Thomas | Ceredigion |
| Lisa | Barker | Abertawe |
| Lisa | Davies | Castell-nedd |
| Lisa | Pickard | Caerdydd |
| Llinos | Roberts | Gwynedd |
| Lloyd | Crowley | Powys |
| Lloyd | Jones | Conwy |
| Lois | Hughes | RCT |
| Louise | Armstrong | Abertawe |
| Louise | Weaver | Sir Fynwy |
| Lowri | E. Hughes | Conwy |
| Lucy | Harries | Sir Fynwy |
| Lucy | Hinksman | Sir Benfro |
| Luke | Powell | Torfaen |
| Luke | Thomas | Torfaen |
| Lydia | Cole | Powys |
| Lynda | Withers | Torfaen |
| Lyndsay | Howard | Sir Fynwy |
| Lynne | Evans | RCT |
| M | Hughes | Sir Benfro |
| Mair | Ashton | RCT |
| Malcolm | McGuire | Sir Ddinbych |
| Marc | Williams | Caerffili |
| Margaret | Evans | Abertawe |
| Mari | Rowlinson | Gwynedd |
| Mark | Banks | Conwy |
| Mark | Firkin | Abertawe |
| Mark | Lewis | Casnewydd |
| Mark | Owens | Abertawe |
| Mark | Sibley | Caerffili |
| Mark | Thomas | Gwent |
| Mark | Williams | Caerffili |
| Mark A. | Barnard | Pen-y-Bont |
| Martin E. | Matthews | Sir Benfro |
| Mathew | Purnell | Caerdydd |
| Matthew | Archer | Castell-nedd |
| Matthew | Heit | Castell-nedd |

| | | |
|---|---|---|
| Matthew | Jones | Castell-nedd |
| Matthew | Lack | Bro Morgannwg |
| Matthew | McDonald | Conwy |
| Melanie | Jones | Conwy |
| Melville | Harding | Blackwood |
| Michael | Allcock | Caerdydd |
| Michael | Cain | Sir Ddinbych |
| Michael | Jones | Pen-y-Bont |
| Michael | Jones | Gwynedd |
| Michael | Rees | Caerffili |
| Michael | Chick | RCT |
| Michelle | Manning | Caerffili |
| Michelle | Williams | Conwy |
| Molly | Matthews | Caerdydd |
| Morgan | Llwyd Jones | Caerffili |
| Myfanwy | Jones | Ynys Mon |
| Naomi | Lee | Abertawe |
| Nathan | Odem | Gwynedd |
| Neil | Bufton | Powys |
| Neil | Williams | Abertawe |
| Nicola | Lewis | Caerffili |
| Nicola | Roberts | Abertawe |
| Nicole | Bird | Caerffili |
| Nigel | Turner | Sir Fynwy |
| Norman | Williams | Pen-y-Bont |
| Olly | Havard | Sir Fynwy |
| Ope | Abidogun | Casnewydd |
| Paul | Coles | Pen-y-Bont |
| Paul | Donnelly | Caerdydd |
| Paul | Hughes | Caerffili |
| Paul | Jones | Abertawe |
| Paul | Lewis | Pen-y-Bont |
| Paul | Lewis | Gwynedd |
| Paul | Pendlebury | Pen-y-Bont |
| Paul | Rowlands | Pen-y-Bont |
| Paul | Tucker | Sir Gaerfyrddin |
| Peter | Allen | Ceredigion |

| | | |
|---|---|---|
| Peter | Gauterin | Wrexham |
| Peter | Jones | Abertawe |
| Peter | Litten | Sir Ddinbych |
| Peter | MacAndrew | Sir Ddinbych |
| Peter | Marsh | Conwy |
| Peter | Powell | Sir Fynwy |
| Philip | Moors | Conwy |
| Philip | Moreland | Conwy |
| Phillip | Morgan | RCT |
| Phillip | Williams | Pen-y-Bont |
| Phillip | Woolley | Powys |
| Phillip Evan | Collins | Sir Gaerfyrddin |
| Rachel | Bewick | RCT |
| Rachel | Howells | RCT |
| Raymond | Byles | Pen-y-Bont |
| Rebecca | Chick | RCT |
| Rebecca | Jones | RCT |
| Rebecca | Jones | Gwynedd |
| Rebecca | L. Roberts | Gwynedd |
| Rebecca | Morgan | Powys |
| Rebecca | Pierce | Sir Ddinbych |
| Rebekah | Prosser | Pen-y-Bont |
| Rhian | Evans | Powys |
| Rhiannon | Currie | Casnewydd |
| Rhiannon | Griffiths | Sir Benfro |
| Rhiannon | Isaac | Pen-y-Bont |
| Rhiannon | Rees | Abertawe |
| Richard | Batchelor | Abertawe |
| Richard | Dunlop | Pen-y-Bont |
| Richard | Horrigan | Caerdydd |
| Richard | Taylor | Pen-y-Bont |
| Richard | Taylor | RCT |
| Richard | Williams | Abertawe |
| Richard J. | Harmer | Sir Benfro |
| Richard J. | Redmond | Conwy |
| Robert | Morris | Castell-nedd |
| Rory | Westhoff | Sir Gaerfyrddin |

| | | |
|---|---|---|
| Ros | Jacobson | Torfaen |
| Rosie | Israel | Ceredigion |
| Rosie | W.Jones | Powys |
| Rowena M. | Williams | Gwynedd |
| Ruth | Barker | Sir Gaerfyrddin |
| Sadie | Williams | RCT |
| Sam | Evans | Gwent |
| Sam | Jones | Pen-y-Bont |
| Sam | Phillips | RCT |
| Sam | Taylor | RCT |
| Samantha | Hall | Sir Gaerfyrddin |
| Samantha | Hupton | Ynys Mon |
| Samantha | Stevenson | Bro Morgannwg |
| Samantha | Taylor | RCT |
| Samantha | Mitchell | Casnewydd |
| Sammy | Tahramanis | Blaenau Gwent |
| Sarah | Chamberlain | Ynys Mon |
| Sarah | Duke | Torfaen |
| Sarah | Griffiths | Sir Fynwy |
| Sarah | Rosser | Sir Fynwy |
| Sarah | Thornton | Gwynedd |
| Savvas | Tahramanis | Blaenau Gwent |
| Scot | Wilson | Sir y Fflint |
| Scott | Weetman | Caerffili |
| Sean | Whelan | Pen-y-Bont |
| Shahid | Afsar | Caerdydd |
| Sharon | Austin | Pen-y-Bont |
| Sharon | Blow | Caerffili |
| Sharon | Cochrane | Caerffili |
| Sharon | Smith | Abertawe |
| Shaun | Roberts | Sir Ddinbych |
| Shaun | Heath | Sir Ddinbych |
| Shayna | Harris | Conwy |
| Sheena | Griffiths | Sir y Fflint |
| Sheila | Moors | Conwy |
| Sheila | Shore | Gwynedd |
| Shirley | Cleever | Ynys Mon |

| | | |
|---|---|---|
| Sian | Jones | Sir Ddinbych |
| Simon | Fernandez | Sir Ddinbych |
| Simon | Rice | Sir Gaerfyrddin |
| Simon | Richards | Caerdydd |
| Sophie | Hinksman | Sir Benfro |
| Sophie | Morgan | Blaenau Gwent |
| Sophie | Scheeres | Caerdydd |
| Sophie | Wakeling | Torfaen |
| Stacey | Traylor | Bro Morgannwg |
| Stephen | Dove | Ceredigion |
| Stephen | Knight | Sir Fynwy |
| Stephen | Miles | Casnewydd |
| Stephen | Thomas | Sir Ddinbych |
| Stephen | West | Caerdydd |
| Stephen | Richardson | RCT |
| Steve | Pocknell | Sir Gaerfyrddin |
| Steve | Smith | Torfaen |
| Steve | Williams | Caerdydd |
| Steven | Davies | RCT |
| Steven | Morgan | Sir Fynwy |
| Steven | Stone | Merthyr Tudful |
| Stuart | Paget | Pen-y-Bont |
| Susan | Davey | Cwmbran |
| Susan | Shaw | Pen-y-Bont |
| Susan | Simcock | Pen-y-Bont |
| Tanwen | Bryn Lloyd | Gwynedd |
| Teri-Anne | Payne | RCT |
| Thomas | Oakes | Ceredigion |
| Thomas | Watling | RCT |
| Tim | Davies | Powys |
| Tim | Hallet | Torfaen |
| Tina | Larner | Pen-y-Bont |
| Toby | Richardson | Abertawe |
| Tom | Spencer | Sir Ddinbych |
| Toni | James | Blaenau Gwent |
| Tony | Griffiths | Wrexham |
| Tracey | Cosgrove | Casnewydd |
| Tracey | Cridland | Caerffili |
| Tracey | Smith | Sir Ddinbych |
| Tracy | Austin | Ynys Mon |
| Trudi | Owen | Ynys Mon |
| Victoria | Waller | Ynys Mon |
| Vicky | Lanfear | Castell-nedd |
| Wendy | Gough | Sir Benfro |
| Wendy | Thomason | Sir Gaerfyrddin |
| William | Bennett | Castell-nedd |
| William | Jones | Pen-y-Bont |
| William | Young | Ynys Mon |
| William Bryn | Owen | Sir Ddinbych |
| Yolande | Scott | Gwynedd |
| Yvonne | Williams | Ynys Mon |
| Zarah | Kaleem | Casnewydd |
| Zoe | Coleman | Casnewydd |

# Aelodau cyswllt

| | |
|---|---|
| Adam | Wakeford |
| Alison | Kendrick |
| Charlotte | Saunders |
| Charlotte | Azzepazdi |
| Christine | Martin |
| Daniel | Bamsey |
| Debbie | Kirkman |
| Ian | Kinsella |
| Jack | Cavanagh |
| Jackie | Hughes |
| Jan | Walmsley |
| Jean | Gregson |
| Jill | Milligan |
| Julie | Davies |
| Kay | Wood |
| Lorraine | Linford |
| Mark | John-Williams |
| Rachel | Philbrick |
| Sue | Oakley |
| Thomas | Oakley |



# Aelodau Grŵp

Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf
Pobl yn Gyntaf Merthyr Tudful
NWAAA
Our Voice Our Choice
Your Voice Advocacy
Standards of Wrexham Services (SWS)
Pobl yn Gyntaf Bro Morgannwg
Pobl yn Gyntaf Blaenau Gwent
Pobl yn Gyntaf Caerffili
Pobl yn Gyntaf Caerdydd
Pobl yn Gyntaf Sir Caerfyrddin
Conwy Connect
DEWIS Centre for Independent Living



Llais Cenedlaethol
Pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

All Wales People First

The National Voice of People
with Learning Disabilities in Wales